

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Mi fydd cynllun yr **NSPCC - Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.** - yn ymweld â'n hysgol i wneud yn siŵr fod gan ein disgyblion yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ar ddydd Iau, Ebrill 11eg.

Blynyddoedd 3 a 4 – mi fydd disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn mynychu Gŵyl Chwaraeon a Sgiliau ar fore dydd Iau Ebrill 11eg ym Mhrifysgol Aberystwyth (astro a 3G). Y cyfan sydd angen ar y disgyblion yw dŵr, treinyrs, dillad chwaraeon a chot (rhag ofn cawn ni law). Mi fyddwn yn cerdded lan i'r Brifysgol ac yn dychwelyd cyn cinio.

Blwyddyn 1 – cofiwch fod disgyblion Blwyddyn 1 yn treulio'r bore yn y Llyfrgell Genedlaethol ar fore dydd Iau, Ebrill 11eg.

Blwyddyn 3 – mi fydd disgyblion Blwyddyn 3 yn cerdded draw i Eglwys Llanbadarn ar fore dydd Gwener fel rhan o waith y thema'r tymor.

Arian Cinio - y gost ar gyfer cinio ysgol am yr hanner tymor nesaf fydd £45.00. Gofynnir yn garedig i chwi dalu yn brydlon os gwelwch yn dda. Rwy'n ymwybod fod rhai rhieni / gwarcheidwaid dal mewn dyled ers y tymor diwethaf felly gofynnir yn garedig i chwi sicrhau fod unrhyw ôl-ddyledion yn cael eu talu'n fuan.

Gwyliau'r Pasg - mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd Gwener, Ebrill 12fed ac yn ail agor ar ddydd MAWRTH Ebrill 30ain.

Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth – mi fydd yr Ensemble Offerynnol a'r Ymgom yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod ar nos Fercher, Mai 1af yn y Morlan. Gofynnir i'r plant gyrraedd yn eu gwisgoedd ysgol erbyn 5.30.

Gŵyl y Banc Calan Mai – cofiwch fod yr ysgol ar gau ar ddydd Llun, Mai 6ed.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth

8.4.2019

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

*The NSPCC's **Speak out. Stay safe.** programme will be visiting our school to make sure our pupils have the knowledge and understanding they need to stay safe from abuse on Thursday, April 11th.*

***Years 3 and 4** – Years 3 and 4 pupils will be attending a Sports and Skills festival on Thursday morning, April 11th at Aberystwyth University (astro & 3G). Pupils will need trainers, comfortable sports clothes, water, and a coat (in case it rains). We will be walking up to the University and returning by lunch time.*

***Year 1** – please remember that Year 1 will be visiting the National Library on Thursday morning, April 11th.*

***Year 3** – Year 3 pupils will be walking over to Llanbadarn Church on Friday morning as part of their theme work for the term.*

***Dinner Money** - the cost for school dinners for the next half term will be £45.00 We kindly ask for prompt payment please. I am aware that some parents / guardians are in arrears since last term so we kindly ask for any arrears to be paid as soon as possible.*

***Easter Holidays** – the school will close at 3.30 on Friday, April 12th and will re-open on TUESDAY, April 30th.*

***Eisteddfod Calan Mai** - the Instrumental Ensemble and the Ymgom will be representing the school at the Calan Mai Eisteddfod at Morlan on Wednesday evening, May 1st. Pupils are kindly asked to arrive by 5.30 in their school outfits.*

***May Day Bank Holiday** – please remember that the school will be closed on Monday, May 6th.*

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Pennaeth

8/4/2019